# Tasglu Ieuenctid

# Diogelwch Ar-lein

## Popeth y mae angen i chi ei wybod

**Gwnewch yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed a'i fod yn siapio byd ar-lein sy'n fwy diogel a hapus.**

**Beth yw Diogelwch Plant Ar-lein?**
Pan rydyn ni wedi siarad â phobl ifanc am ddiogelwch ar-lein, maen nhw wedi dweud wrthym ni: **'Er ein bod yn ifanc, mae gennym syniadau cryf am sut i gadw plant yn ddiogel ar-lein'.**

**Ar hyn o bryd, does neb yn hyrwyddo barn pobl ifanc i wneud newidiadau mawr i'r byd ar-lein. Rydyn ni am newid hynny. Mae'n hen bryd i ni oedolion wneud yn siŵr eich bod chi'n rhan o'r sgwrs am wneud mannau ar-lein yn fwy diogel i bawb. Rydyn ni eisiau dysgu mwy am eich profiadau ar-lein, a'r problemau rydych chi'n eu hwynebu wrth chwilio am gymorth, a gweithio gyda chi i ddod o hyd i atebion i'r problemau hynny.**



**Rydyn ni'n gwybod mai chi, fel pobl ifanc, yw'r arbenigwyr yn eich bywyd eich hun – felly rhannwch eich lleisiau a'ch profiadau gyda ni. A gyda'n gilydd, gallwn greu byd ar-lein sy'n ddiogel i bob plentyn.**

NSPCC

**MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO**
**EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR**

Registered charity in England and Wales (216401), Scotland (SC037717) and Jersey (384).

Fel rhan o'r broses o roi pobl ifanc wrth galon ein gwaith, rydyn ni'n awyddus i recriwtio tasglu o bobl ifanc i gael llais am ddiogelwch yn y byd ar-lein. Bydd y gwaith hwn o bosibl yn golygu siarad ag arweinwyr diwydiant y byd ar-lein, a dylanwadu ar gyfreithiau a rheoliadau, yn ogystal ag edrych ar sut i ddatrys y tueddiadau niweidiol presennol ar-lein.

## Beth yw'r Tasglu Ieuenctid Diogelwch Ar-lein?

Bydd y Tasglu Ieuenctid Diogelwch Ar-lein yn grŵp o 15 unigolyn ifanc rhwng 13 ac 16 oed o bob rhan o'r DU. Bydd y Tasglu Ieuenctid Diogelwch Ar-lein yn gallu rhannu eu barn a'u syniadau ar faterion y mae pobl ifanc yn eu hwynebu ar-lein heddiw, a chynghori'r NSPCC ar yr hyn sydd bwysicaf i'r genhedlaeth hon. Bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn llawer o brosiectau a phrofiadau llawn hwyl. Bydd cyfleoedd i deithio ledled y DU i gymryd rhan mewn digwyddiadau preswyl, cyfarfodydd a gweithdai, a bydd y rhain i gyd yn ymwneud â'r byd ar-lein a chadw pobl ifanc yn ddiogel.

**Gall unrhyw un wneud cais** – rydyn ni eisiau llawer o wahanol bobl ifanc fod yn rhan o'r Tasglu Ieuenctid Diogelwch Ar-lein. Does dim angen i chi gael profiad blaenorol o gymryd rhan mewn grŵp cynghori, nac o wirfoddoli gyda'r NSPCC. Byddwn yn rhoi llawer o gefnogaeth, gwybodaeth a hyfforddiant i chi er mwyn i chi deimlo'n hyderus ac yn hapus i gymryd rhan.

## Yr hyn mae'n ei olygu

Os byddwch chi'n dod yn aelod o'r **OTasglu Ieuenctid Diogelwch Ar-lein,** byddwch yn:

- Ymuno â sesiynau misol a gweithdai ar-lein gyda gweddill y Tasglu Ieuenctid Diogelwch Ar-lein. Bydd rhai sesiynau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb ond bydd y rhan fwyaf yn cael eu cynnal dros y we.
- Rhannu eich barn a'ch syniadau gyda phenderfynwyr allweddol yn yr NSPCC, ac arweinwyr diwydiant y byd ar-lein.
- Gweithio gyda gweddill y Tasglu Ieuenctid Diogelwch Ar-lein i hyrwyddo barn pobl ifanc am y byd ar-lein.
- Cael hyfforddiant i ddatblygu llawer o sgiliau pwysig fel ymgyrchu, siarad yn gyhoeddus a gwaith tîm.
- Cynrychioli'r Tasglu Ieuenctid Diogelwch Ar-lein mewn digwyddiadau cyffrous gyda llawer o bobl sydd â diddordeb mewn diogelwch ar-lein. Cwrdd â thimau eraill yn yr NSPCC er mwyn helpu i wneud y byd ar-lein yn fwy diogel.
- Bod yn arbenigwyr mewn tueddiadau newydd sy'n dod i'r amlwg a gweithio fel tîm i ddatblygu cyngor a gwybodaeth am dueddiadau niweidiol.



## Er mwyn dod yn aelod o'r Tasglu Ieuenctid Diogelwch Ar-lein mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- Ymrwymo i fod yn aelod o'r Tasglu Ieuenctid Diogelwch Ar-lein am ddwy flynedd, o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2026.
- Bod ar gael i fynd i bob cyfarfod ar-lein a wyneb yn wyneb yn rheolaidd, gan gynnwys digwyddiadau preswyl wyneb yn wyneb.
- Cael mynediad at dechnoleg a fydd yn eich galluogi i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ar-lein a thasgau all-lein.
- Bod yn hapus i rannu eich barn a'ch syniadau, a dweud wrth yr NSPCC beth yw eich barn am yr hyn rydyn ni'n ei wneud, a beth gallen ni ei wneud yn well i blant a phobl ifanc.
- Teimlo'n gyffrous am weithio mewn tîm gyda grŵp o 14 o bobl ifanc eraill o bob cwr o'r DU.
- Bod yn barod i wrando ar eraill a pharchu barn a allai fod yn wahanol i'ch barn chi.
- Bod yn barod i roi cynnig ar bethau newydd a chymryd rhan mewn profiadau newydd, fel mynd i gyfarfodydd gyda phenderfynwyr yn yr NSPCC.

## Faint mae'n ei gostio?

Nid yw'n costio dim i ymuno. Bydd yr NSPCC yn talu am gostau teithio, llety a threuliau eraill fel bwyd, pan fyddwch chi'n dod i unrhyw ddigwyddiadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd yr holl fanylion hyn yn cael eu rhannu â chi a'ch rhiant/gofalwr cyn unrhyw gyfarfodydd neu ddigwyddiadau.

## Hoffwn wneud cais i ddod yn aelod o'r Tasglu Ieuenctid Diogelwch Ar-lein. Beth sydd angen i mi ei wneud?

Grêt! Y cam cyntaf yw llenwi ffurflen gais. Ar ôl i chi wneud hynny, gofynnwch i'ch rhiant neu ofalwr lenwi'r ffurflen caniatâd sy'n cyd-fynd â'ch ffurflen chi.

Bydd angen i chi ei anfon atom ni erbyn 12 Ionawr 2024. Bydd angen i chi fod ar gael ar gyfer cyfweliad dros y we gydag aelod o'n tîm cyfeillgar yn ystod mis Chwefror neu fis Mawrth 2024.

## Beth os bydd angen mwy o help arnaf i wneud cais?

Rydyn ni bob amser yma i helpu. Anfonwch neges at YouthCSOSolutions@NSPCC.org.uk er mwyn i ni wneud yn siŵr eich bod yn cael yr holl gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i wneud cais.

## Diogelu

Mae'r NSPCC yn cymryd cyfrifoldebau diogelu o ddifrif ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu pobl ifanc. I weld sut rydyn ni'n gwneud hyn, darllenwch y ddogfen diogelu yma sy'n nodi manylion ein hymrwymiad i bobl ifanc a'r hyn rydyn ni wedi'i roi ar waith i gadw pobl ifanc yn ddiogel.